OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1028

## Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015

## RHAN F

### GWRANDAWIADAU A PHENDERFYNIADAU

**Gwysio tyst**

**41.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5), caiff y Tribiwnlys ar gais parti neu ar gymhelliad y Tribiwnlys ei hunan, ei gwneud yn ofynnol, drwy wŷs fod unrhyw berson yn bresennol fel tyst mewn gwrandawiad, ar yr adeg ac yn y lle sy'n cael eu pennu yn y wŷs, ac mewn unrhyw ohiriad o'r gwrandawiad hwnnw neu o weddill y gwrandawiad hwnnw, ac yn y gwrandawiad, ei fod yn ateb unrhyw gwestiynau neu'n dangos unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall sy'n cael ei gadw ganddo, neu sydd o dan ei reolaeth, ac sy'n ymwneud ag unrhyw fater dan sylw yn y cais.

(2) Rhaid peidio â gorfodi unrhyw berson i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall, na ellid gorfodi'r person i'w rhoi neu i'w dangos mewn treial o achos mewn llys barn yng Nghymru neu Loegr.

(3) Wrth arfer y pŵer sy'n cael ei roi gan y rheol hon, rhaid i'r Tribiwnlys gymryd i ystyriaeth yr angen i ddiogelu unrhyw fater sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol agos neu amgylchiadau ariannol, neu sy'n cynnwys gwybodaeth a fynegwyd neu a ddaeth i law yn gyfrinachol.

(4) Ni cheir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs bod person yn bresennol oni roddwyd o leiaf 5 niwrnod gwaith o rybudd o'r gwrandawiad i'r person hwnnw, neu, os rhoddwyd llai na 5 niwrnod gwaith, oni fydd y person wedi rhoi gwybod i'r Tribiwnlys ei fod yn derbyn y rhybudd a roddwyd.

(5) Ni cheir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs bod person yn bresennol ac yn rhoi tystiolaeth neu'n dangos unrhyw ddogfen, oni fydd swm o arian wedi ei dalu neu ei gynnig iddo, sy'n rhesymol ddigonol i dalu treuliau angenrheidiol ei bresenoldeb.

(6) Rhaid i barti sydd am gael gwŷs tyst wneud cais ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, o leiaf 8 niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad, neu'n ddiweddarach os yw'r person y mae'r wŷs yn cael ei chyfeirio ato yn cydsynio mewn ysgrifen.

(7) Rhaid i wŷs tyst gynnwys—

(a) datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ac, os gofynnir am hynny yn y wŷs, i ddangos dogfennau, yn atebol o dan adran 126 o'r Mesur, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, a

(b) datganiad o effaith paragraff (8).

(8) Caiff person y mae gwŷs tyst yn cael ei chyfeirio ato wneud cais i'r Tribiwnlys, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, i amrywio'r wŷs neu ei osod o'r neilltu.

(9) Rhaid i'r Tribiwnlys beidio ag amrywio na gosod o'r neilltu wŷs tyst heb yn gyntaf hysbysu'r parti a wnaeth gais am ddyroddi'r wŷs tyst ac ystyried unrhyw sylwadau a gafodd eu gwneud gan y parti hwnnw.